

Tribiwnlys Adolygu
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review
Tribunal for Wales

Canllaw ar Wneud Cais i'r Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Llawr 2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5328
Ffacs: 0300 025 7331
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk
Fersiwn 1.4 – Ebrill 2017

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am:

Pobl sy'n dod o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

- Tudalen 3 [Beth yw'r Ddeddf Iechyd Meddwl?](#)
- Tudalen 4 [Pa bryd allaf fi wneud cais i'r Tribiwnlys?](#)
- Tudalen 4 [Sut mae gwneud cais?](#)
- Tudalen 5 [Cynrychiolaeth gyfreithiol](#)
- Tudalen 5 [Ar ôl gwneud cais](#)
- Tudalen 5 [Pa bryd fydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal?](#)
- Tudalen 5 [Canslo cais](#)

Perthnasau Agosaf

- Tudalen 5 [Perthynas Agosaf](#)
- Tudalen 5 [A allaf fi newid fy Mherthynas Agosaf?](#)
- Tudalen 6 [A all fy Mherthynas Agosaf wneud rhywun arall yn Berthynas Agosaf i mi?](#)
- Tudalen 6 [Beth os nad oes gen i Berthynas Agosaf?](#)

Ceisiadau Perthynas Agosaf

- Tudalen 7 [Sut mae gwneud cais?](#)
- Tudalen 7 [Pa bryd a ddylid gwneud cais?](#)
- Tudalen 7 [Perthnasau Agosaf wedi'u Dadleoli](#)

Beth yw'r Ddeddf Iechyd Meddwl?

Cyflwynwyd y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA) gyntaf ym 1959, a chafodd ei disodli ym 1983 a'i diwygio yn 2007. Mae'n amlinellu'r gyfraith sy'n ymdrin â sut y gallwch gael eich cadw a'ch trin ar gyfer anhwylder meddwl heb eich caniatâd. Mae hefyd yn egluro beth eich hawliau.

Mae'n egluro pa bwerau cyfreithiol sydd gan feddygon a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) i'ch cadw mewn ysbyty yn erbyn eich ewyllys neu eich gwneud yn destun unrhyw un o ddarpariaethau eraill y Ddeddf, er enghraifft, Gwarcheidiaeth (Ile byddwch yn destun cyfyngiadau penodol gan gynnwys gofyniad i fyw mewn cyfeiriad penodedig) neu Orchymyn Triniaeth Gymunedol (Ile bydd yn rhaid i chi sicrhau eich bod ar gael i gael eich archwilio a gallwch gael eich galw'n ôl i ysbyty gan eich RC). Mae'r Ddeddf yn amlinellu fframwaith cyfreithiol, sy'n rhaid ei ddilyn i sicrhau bod eich hawliau'n cael eu diogelu:

- Pryd y gellir eich derbyn i ysbyty yn erbyn eich ewyllys
- Pryd y gellir rhoi triniaeth i chi yn erbyn eich ewyllys
- Beth yw eich hawliau
- Y mesurau diogelwch sydd ar gael i wneud yn siŵr bod eich hawliau'n cael eu diogelu.

Cyn y gellir eich cadw o dan y Ddeddf, rhaid i ddau feddyg gytuno bod angen i chi fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Byddant naill ai wedi'u cymeradwyo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu gall un fod yn feddyg sy'n eich adnabod eisoes (fel eich meddyg teulu).

Rôl y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) yw sicrhau bod hyn yn gam angenrheidiol ac nad oes ymyriad 'llai cyfyngol' y gellid ei ddefnyddio. Rhaid i'r meddygon a'r AMHP fod yn fodlon bod eich anhwylder meddwl yn eich rhoi mewn perygl o niweidio eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu fod perygl eich bod yn debygol o niweidio rhywun arall.

Mae'r Ddeddf yn datgan yr hyn y gall meddygon ac AMHP ei wneud ac na chânt ei wneud a pha hawliau sydd gennych chi a'ch perthnasau.

Bydd cais i asesu eich iechyd meddwl yn cael ei wneud ar sail math (er enghraifft diagnosis o'ch anhwylder iechyd meddwl neu eich hanes yn y gorffennol) neu ddifrifoldeb eich anhwylder (sef i ba raddau y mae eich anhwylder meddwl yn effeithio arnoch a'r risgiau mae'n ei achosi i chi ac i eraill).

Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n adrannau. Gallwch gael eich cadw mewn ysbyty o dan wahanol adrannau fel y gellir eich asesu neu eich trin am anhwylder meddwl. Mae gwahanol adrannau o'r Ddeddf yn para am gyfnodau gwahanol o amser.

Pa bryd allaf fi wneud cais i'r Tribiwnlys?

Mae hyn yn dibynnu ar ba adran neu orchymyn rydych yn ddarostyngedig iddo. Rhoddir crynodeb isod o rai o'r Adrannau / Gorchymynion a ddefnyddir amlaf. Os ydych chi'n destun gwahanol Adran, gweler ein Tabl Cymhwysedd i ganfod pa bryd y gallwch wneud cais.

- Adran 2: rhaid i chi wneud cais o fewn y 14 diwrnod cyntaf ar ôl eich cadw o dan y Ddeddf;
- Adrannau 3 neu 17a (Gorchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO)): gallwch wneud cais unwaith yn ystod 6 mis cyntaf eich ar ôl eich cadw / Gorchymyn; unwaith yn yr ail 6 mis, ac unwaith bob blwyddyn wedi hynny;
- Adran 37: ni allwch wneud cais yn ystod 6 mis cyntaf ar ôl eich cadw. Gallwch wedyn wneud cais unwaith rhwng 6 a 12 mis ar ôl dechrau eich cadw ac yna unwaith yn ystod pob cyfnod o 12 mis wedi hynny;
- Adran 37/41: ni allwch wneud cais yn ystod 6 mis cyntaf ar ôl eich cadw Gallwch wneud cais unwaith rhwng 6 a 12 mis ar ôl eich cadw, ac yna unwaith bob blwyddyn wedi hynny;
- Adran 41 (Rhyddhau Amodol). Ni allwch wneud cais yn y flwyddyn gyntaf ar ôl rhyddhad amodol. Gallwch wneud cais unwaith yn yr ail flwyddyn ar ôl rhyddhad amodol. Gallwch wedyn wneud cais unwaith bob 2 flynedd wedi hynny.
- Adran 7 (Gwarcheidiaeth). Gallwch wneud cais unwaith yn ystod 6 mis cyntaf y Gorchymyn, unwaith yn yr ail 6 mis ac unwaith yn ystod pob cyfnod o 12 mis wedi hynny.

Os nad ydych chi'n siŵr a allwch wneud cais, gofynnwch i'ch eiriolydd (IMHA), Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr ysbyty, eich cynrychiolydd cyfreithiol, neu aelod o'ch tîm gofal.

Sut ydw i'n gwneud cais i'r Tribiwnlys?

Gallwch lenwi ffurflen gais (MHRTW1), ysgrifennu atom, neu ofyn i'ch cynrychiolydd cyfreithiol wneud cais ar eich rhan. Mae'r ffurflen gais ar gael yn yr adran Ceisiadau ar y wefan hon, neu gallwch ofyn i'ch eiriolydd (IMHA), Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, gweithiwr cymdeithasol neu staff y ward am ffurflen.

Os nad ydych chi'n dymuno llenwi ffurflen, gallwch ysgrifennu atom i ddweud yr hoffech gael Tribiwnlys. Bydd yn rhaid i ni gael eich enw llawn a'ch cyfeiriad, ac enw'r ward yn yr ysbyty os ydych yn cael eich cadw yno, neu'r tŷ neu'r cartref gofal lle'r ydych yn byw. Os gallwch, dylech gynnwys manylion yr Adran o'r Ddeddf rydych yn destun iddi, ond peidiwch â phoeni os nad ydych yn gwybod.

Dywed y gyfraith na allwn dderbyn cais heb ei lofnodi, felly cofiwch lofnodi'r ffurflen neu'r llythyr. Os nad ydych chi eisiau llofnodi eich cais, dylech gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod

wedi awdurdodi rhywun arall i'w lofnodi ar eich rhan. Os oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol, gall wneud y cais ar eich rhan a llofnodi'r llythyr ei hun os mai dyna sydd orau gennych chi.

Gall swyddfa'r Tribiwnlys dderbyn ceisiadau fel e-bost, ffacs neu drwy'r post. Mae ein manylion cyswllt ar waelod y ddogfen Gwarcheidiaeth hon, ar y ffurflen gais, ac ar dudalen cysylltu ein gwefan.

Cynrychiolaeth gyfreithiol

Mae cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim gan gyfreithiwr arbenigol ar gael i unrhyw un sydd wedi gwneud cais i Dribiwnlys. Mae gan swyddfa'r Tribiwnlys restr o gyfreithwyr ieuchyd meddwl arbenigol ar y wefan hon; gall eich eiriolydd (IMHA), Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, neu staff ar y ward hefyd roi copi o'r rhestr hon i chi. Gallwch gael eich cynrychioli'n gyfreithiol gan bwy bynnag a fynnoch, os ydynt yn barod i'ch cynrychioli, heblaw claf arall yn yr un ysbyty â chi neu rywun arall sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Beth fydd yn digwydd ar ôl gwneud cais?

Bydd swyddfa'r Tribiwnlys yn cydnabod ei bod wedi cael eich cais ac yn gwneud trefniadau i gynnal gwrandawriad. Yn nes at ddyddiad y gwrandawriad byddwch chi neu eich cynrychiolydd cyfreithiol yn cael copïau o'r adroddiadau a ysgrifennwyd gan eich tîm gofal. Yn fuan cyn y gwrandawriad bydd aelod Meddygol y Tribiwnlys yn gwneud trefniadau i'ch gweld ar gyfer yr hyn a elwir yn 'archwiliad rhagarweiniol'. Mae hwn yn gyfarfod lle bydd yr aelod meddygol yn cael sgwrs â chi.

Pa bryd fydd y gwrandawriad yn digwydd?

Mae hyn yn dibynnu ar ba Adran o'r Ddeddf / Gorchymyn rydych yn destun iddo:

- Adran 2: o fewn 7 diwrnod ar ôl i swyddfa'r Tribiwnlys gael eich cais;
- Pob adran arall heb gyfyngiadau (e.e. Adran 3, 37, CTO neu Warcheidiaeth) o fewn 8 wythnos;
- Gorchymyn cyfyngu (e.e. Adran 37/41, 47/49 neu Adran 41- rhyddhad amodol) o fewn 14 wythnos.

Beth os byddaf yn newid fy meddwl ar ôl gwneud cais?

Os byddwch yn penderfynu nad ydych chi eisiau cael gwrandawriad wedi'r cyfan, gallwch ofyn i'ch cais gael ei dynnu'n ôl. Os oes gennych chi gynrychiolaeth gyfreithiol, dylech gael gair â'ch cynrychiolydd cyfreithiol yn gyntaf a gofyn iddo ef neu hi i wneud cais i dynnu'r cais yn ôl. Os nad ydych yn cael eich cynrychioli, bydd aelod Cyfreithiol y Tribiwnlys yn cwrdd â chi i wneud yn siŵr eich bod yn deall goblygiadau tynnu'r cais yn ôl. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i dynnu eich cais yn ôl gan ddefnyddio ffurflen MHRTW18. Mae canllawiau ar

sut i lenwi'r ffurflen ar MHRTW18A. Bydd y Tribiwnlys wedyn yn ystyried eich cais i dynnu'n ôl a bydd yn rhoi gwybod i chi neu eich cynrychiolydd cyfreithiol a yw wedi'i dderbyn.

Beth os oes gen i anghenion ychwanegol?

Bydd y Tribiwnlys yn gwneud ei orau i ddarparu ar gyfer anghenion ychwanegol, ond rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn rhoi manylion i ni pan fyddwch yn anfon eich cais neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Er enghraifft, dylech ddweud os oes angen cyfieithydd neu gyfieithydd iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawriad, a bydd y Tribiwnlys yn trefnu hyn ar eich cyfer.

Perthynas Agosaf

Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys gwybodaeth am bwy ddylai eich perthynas agosaf fod. Mae eithriadau i'r rheolau hyn os ydych chi o dan 18 oed a gall Weinyddwr Iechyd Meddwl yr ysbyty, eich gweithiwr cymdeithasol, cydlynnydd ofal neu gynrychiolydd cyfreithiol roi cyngor pellach i chi.

A allaf fi newid fy Mherthynas Agosaf?

Os nad ydych chi'n credu bod eich perthynas agosaf yn addas i ymgymryd â'r rôl hon gallwch ofyn i Lys Sirol ei newid. Gall eich perthynas agosaf ddweud wrth lys os yw'n credu y dylai barhau fel eich perthynas agosaf, a bydd yn ystyried hyn wrth wneud penderfyniad.

Os bydd y llys yn cytuno bydd yn gwneud gorchymyn yn dweud y dylai rhywun arall fod yn berthynas agosaf i chi a gallwch ddweud wrth y Llys pwy ddylai'r person hwnnw fod.

Gall gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl, perthynas arall neu'r unigolyn sy'n byw â chi (neu a oedd yn byw â chi cyn i chi gael eich derbyn i'r ysbyty) hefyd ofyn i'r Llys Sirol i newid eich perthynas agosaf.

A all fy Mherthynas Agosaf wneud rhywun arall yn Berthynas Agosaf i mi?

Na. Ni allant wneud rhywun arall yn berthynas agosaf i chi, ond gallant ddweud y dylai rhywun arall ymgymryd â'r rôl honno. Gelwir hyn yn ddirprwyo eu hawliau a rhaid iddynt ddweud wrthyh chi os ydynt wedi gwneud hyn.

Beth os nad oes gen i Berthynas Agosaf?

Gallwch ofyn i'r Llys Sirol wneud rhywun yn berthynas agosaf ond dim ond os nad oes gennych chi berthynas agosaf neu os nad oes neb yn gwybod pwy yw eich perthynas agosaf. Gall y rhai a restrir uchod ofyn i'r llys wneud hyn (fel yn achos newid eich perthynas agosaf). Byddai'r Llys wedyn yn gwneud gorchymyn yn dweud pwy ddylai eich perthynas agosaf fod.

Ceisiadau Perthynas Agosaf

Os ydych chi'n berthynas agosaf rhywun sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys drwy gwblhau ffurflen gais MHRTW02 neu drwy ysgrifennu atom neu gyfarwyddo Cynrychiolydd Cyfreithiol i wneud hynny. Pan fyddwch yn ysgrifennu, dylech gynnwys eich enw, enw eich perthynas, ble mae'n cael ei gadw / yn byw, yr Adran / Gorchymyn mae'n destun iddo, a dweud eich bod yn dymuno gwneud cais i'r Tribiwnlys fel Perthynas Agosaf.

Gall swyddfa'r Tribiwnlys dderbyn ceisiadau fel e-bost, ffacs neu drwy'r post. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen Ganllaw hon, ar y Ffurflen Gais, ac ar dudalen Cysylltu ein gwefan.

Mae rhagor o wybodaeth ar rôl Perthynas Agosaf yn ein Canllaw ar gyfer Perthnasau Agosaf yn adran y Gwrandawriad Tribiwnlys ar ein gwefan.

Pa bryd allaf fi wneud cais i'r Tribiwnlys?

Fel Perthynas Agosaf rhywun sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl, gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys os yw eich perthynas yn cael ei dderbyn i ysbyty o dan **Adran 3** neu **Adran 17a** (Gorchymyn Triniaeth Gymunedol) ac:

- os ydych chi wedi hysbysu rheolwyr yr ysbyty o'ch bwriad i ryddhau eich perthynas o dan Adran 23, a
- bod y Clinigwr Cyfrifol wedi cyhoeddi tystysgrif gwahardd.

Rhaid i chi wneud eich cais i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eich hysbysu bod tystysgrif gwahardd wedi'i chyhoeddi.

Os yw eich perthynas yn cael ei dderbyn i ysbyty o dan **Adran 37** o'r Ddeddf Iechyd Meddwl gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys unwaith rhwng 6 a 12 mis ar ôl i'r Gorchymyn gael ei roi mewn grym ac yna unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis wedi hynny.

Am fanylion llawn am hawl perthnasau agosaf i wneud cais, gweler y tabl cymhwysedd o dan y canllaw a ffurflenni ar y wefan hon.

Perthynas Agosaf wedi'i Ddadleoli – Pa bryd allaf fi wneud cais i'r Tribiwnlys?

Gall perthynas agosaf wedi'i ddadleoli rhywun sydd wedi'i dderbyn i ysbyty o dan Adran 3, Adran 17a (Gorchymyn Triniaeth Gymunedol), neu Adran 7 (Gorchymyn Gwarcheidiaeth) wneud cais i'r Tribiwnlys unwaith yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl Gorchymyn / derbyn eich perthynas i'r ysbyty, ac unwaith yn ystod pob blwyddyn wedi hynny.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.